Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanllyfni - Flying Start

**Neuadd Goffa**
**Llanllyfni**
**Caernarfon**
**LL54 6SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanllyfni - Flying Start

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cych Meithrin Llanllyfni – Flying Start |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Mudiad Meithrin |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Leanne Marsh a Gwenllian Lansdown Davies |
| Person â gofal | Eirian Roberts |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau 8:45-13:45 Dydd Gwener 8:45-13:30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28/06/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 14/05/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 16/05/2023 |
| Cymraeg yw iaith gyntaf y rhan fwyaf o'r plant. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod staff yn dilyn prosesau hylendid yn gyson

A2 Cynllunio sesiynau amser cylch bwriadus

A3 Ffurfioli cyfarfodydd goruchwylio ymarferwyr

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus. Maent yn cael croeso cynnes wrth gyrraedd, a chysur os ydyn nhw’n ansicr. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â threfn y dydd, yn cyfarch eu ffrindiau’n hapus ac yn ymgolli mewn gweithgareddau yn syth ar ôl cyrraedd.

Maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r gweithgareddau chwarae rhydd ynghyd ag ychydig o weithgareddau mwy ffurfiol. Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae ac yn dilyn eu hoffterau personol, er enghraifft wrth chwarae â’r teganau electronig. Dangosant gyfeillgarwch hyfryd tuag at ei gilydd. Er enghraifft, gwelwyd plant yn dathlu eu llwyddiant ar ôl gosod y llythrennau yn y bylchau cywir gan ganmol ei gilydd.

Mae llais cryf gan y plant ac mae llawer yn mynegi eu teimladau’n briodol. Mae’r mwyafrif yn hyderus wrth ddewis yr hyn maent am ei fwyta amser byrbryd. Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn dangos hoffter tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus i’w gwahodd i ymuno yn eu chwarae.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n arbennig o dda gyda phlant eraill gan rannu a chymryd tro, er enghraifft wrth ddefnyddio’r llithren a’r offer yn y twba dŵr. Yn ystod amser caffi, maent yn fodlon iawn i aros eu tro ac i rannu’r gyllell ar gyfer torri’r ffrwyth. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo’n hapus pan fyddant yn cael eu canmol

gan yr ymarferwyr am helpu tacluso neu am gyfri tra'n chwarae tu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Maent yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach a helpu eu hunain i ddiod o ddŵr. Maent hefyd yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, fel golchi eu dwylo, clirio a golchi llestri ar ôl gorffen byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol wrth gyd-chwarae yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau modur mân yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyllell i dorri clai yn ddarnau bychan cyn ei siapio i greu teisen ddeniadol i gynnig i ymwelwyr. Mae bron bob un yn datblygu medrau modur mawr yn effeithiol wrth siglo yn y cwch yn yr ardal tu allan a dringo'r llithren. Maent yn datrys problemau'n llwyddiannus wrth arbrofi â llif dŵr, gan ddefnyddio'r dŵr i symud hwyaden ar hyd lwybr o bibellau, ac wrth wneud i olwyn melin ddŵr droi.

Mae llawer yn datblygu medrau gwrando a siarad Cymraeg yn gadarn. Maent yn cynnig gwybodaeth i'r ymarferwyr yn gynyddol hyderus. Maent yn dechrau siarad â'u ffrindiau am yr hyn y maent yn ei wneud, ac mae ychydig o blant mwy hyderus yn hoffi hebrwng ymwelwyr i ardaloedd gwahanol a disgrifio'r gweithgareddau sydd ar gael. Mae'r ychydig iawn o blant sy'n dod o gartrefi di Gymraeg yn defnyddio'r iaith yn gynyddol hyderus wrth chwarae gyda'i ffrindiau. Mae'r mwyafrif yn ymuno'n briodol wrth ganu caneuon Cymraeg.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol, er enghraifft wrth adnabod eu henwau ac ychwanegu'r label cywir i'r 'goeden gofrestru' ar gychwyn y bore. Maent yn dechrau creu marciau'n llwyddiannus wrth ysgrifennu gyda phinnau ffelt ar fwrdd gwyn.

Mae llawer yn cymhwyso medrau rhifedd yn briodol wrth chwarae mewn ardaloedd tu allan. Maent yn cyfri cynhwysion gwahanol i ychwanegu i'r bowlen yn y gegin fwd ac yn trafod os yw cafnau'n wag neu llawn wrth chwarae â dŵr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau digidol yn llwyddiannus wrth reoli cyfeiriad ceir electronig. Maent yn datblygu medrau rheolaeth cynnar yn effeithiol trwy fewnbynnu cyfarwyddiadau i degan er mwyn gwneud iddo symud.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau creadigol yn fedrus. Maent yn cydweithio â ffrindiau i addurno teisen penblwydd yn y gegin fwd. Maent yn ailgylchu poteli llefrith plastig a'u haddurno i greu modelau deniadol o Elfed yr Eliffant ac wrth eu boddau'n arbrofi ag offerynnau taro i greu cerddoriaeth eu hunain.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae perthynas agos, naturiol iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r plant, yn siarad â nhw'n annwyl ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i blant ddewis a dethol adnoddau eu hunain tu

fewn a thu allan. Maent yn cwestiynu ac ehangu datblygiad y plant yn briodol pan mae cyfleoedd i wneud hynny, er enghraifft wrth gyfri'r camau ar y llwybr cydbwysedd tu allan ac wrth ymdrin ag arian yn y siop chwarae rôl. Maent yn ymateb i gwestiynau llafar neu cyfathrebu di-eiriau'r plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant fod yn annibynnol trwy eu hannog i'w cynorthwyo i baratoi byrbryd amser caffi.

Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn dilyn systemau a gweithdrefnau trylwyr er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae gan y rhan fwyaf o ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau ond nid ydynt bob amser yn newid cewyn yn unol â'r weithdrefn ddisgwyliedig. Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach adeg snac ac yn sicrhau mynediad i ddŵr yfed drwy gydol y sesiwn. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion am unrhyw bryderon, damweiniau a gwybodaeth berthnasol yn ddiogel. Maent wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant, sy'n sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth o'r prosesau i'w dilyn. Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol. Er enghraifft, mae systemau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allweddol i gefnogi'r plant. Mae'r ymarferwyr wedi datblygu partneriaethau llwyddiannus â'r rhieni i sicrhau cefnogaeth briodol i'w plant.

Mae'r ymarferwyr yn modelu ymddygiad yn effeithiol ac yn dangos parch tuag at y plant bob amser. Maent yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod ar lafar. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir diwylliannol â pharch a goddefgarwch.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn creu mannau ysgogol sy'n galluogi plant i ddatblygu eu medrau mewn ardaloedd gwahanol tu fewn a thu allan. Maent yn gwneud defnydd crefftus o amrywiaeth eang o adnoddau sy'n sbarduno dychymyg y plant. O ganlyniad, mae'r plant yn arbrofi'n hyderus wrth chwarae'n annibynnol neu ochr yn ochr gyda'i ffrindiau. Mae'r adnoddau'n darparu llu o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau corfforol. Er enghraifft, maent yn datblygu medrau modur mân wrth wehyddu, ac yn datblygu medrau corfforol wrth reidio beiciau a defnyddio teganau gydag olwynion yn fedrus. Mae ymarferwyr yn manteisio'n briodol ar gyfleoedd i ymyrryd yn y chwarae er mwyn datblygu medrau eraill, fel medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, maent yn annog plant i gyfri'r cynhwysion mewn powlen yn y gegin fwd. Mae ymarferwyr yn annog plant i ryngweithio'n gyfeillgar â'i gilydd gan ymyrryd yn garedig yn yr ychydig o achosion pan mae angen atgoffa plant i rannu teganau gyda'i ffrindiau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ychydig o weithgareddau bwriadus i gyfoethogi'r profiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwahodd y plant i chwilio am drychfilod gwahanol, ac i bwyso cynhwysion wrth bobi bisgedi. Yn ogystal, maent yn cynnal sesiynau amser cylch addas sy'n rhoi cyfle priodol i blant drafod eu teimladau ac i ganu caneuon Cymraeg. Fodd bynnag, maent yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau plant ymhellach yn y sesiynau hyn.

Mae ymarferwyr wedi mabwysiadu dulliau asesu addas. Maent yn dechrau cofnodi cynnydd plant mewn sesiynau ac ar adegau allweddol. Maent yn dathlu llwyddiannau yn fuddiol gan ychwanegu lluniau a sylwadau i'r Wal Waw. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau asesu wedi gwreiddio'n llawn, ac nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau bwriadus yn ddigon cyson i ymateb i gefnogi'r camau nesaf yn y dysgu.

Mae gan y lleoliad naws Gymreig amlwg. Cymraeg yw iaith naturiol y sesiynau, ac mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith yn effeithiol. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i ddathlu Cymreictod yn briodol, er enghraifft drwy bobi cacennau cri, ac annog plant i wisgo'r lliw coch neu wisg draddodiadol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant. Maent yn cynllunio ychydig o gyfleoedd buddiol i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill. Er enghraifft, mae plant yn cael cyfle i flasu bwyd o Tsieina wrth iddynt ddysgu am y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn creu awyrgylch gyfeillgar a chroesawgar sy'n sicrhau bod plant yn teimlo'n gartrefol. Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac yn sbarduno chwarae'r plant yn effeithiol. Mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ardal allanol wedi'i chynllunio'n bwrpasol i alluogi plant i ddatblygu'n gorfforol, yn greadigol ac i fod yn chwilfrydig. O ganlyniad, mae cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau modur mawr a mân drwy ddringo'r llithren, rholio a chreu siapiau gyda thoes ynghyd â gwneud marciau gyda sialc.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol. Mae modd i blant ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar gelfi sy'n addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus wrth iddynt ddefnyddio'r tŷ bach ac wrth newid cewyn. Mae ymarferwyr yn dathlu creadigrwydd y plant drwy arddangos eu gwaith. Er enghraifft, mae lluniau o'r plant a'u teuluoedd wedi eu harddangos ar y wal, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn pe bai argyfwng. Mae asesiadau risg ysgrifenedig yn eu lle sy'n amlinellu'r camau i leihau neu atal y risg i blant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r ardal allanol cyn i blant ei defnyddio. Mae arweinwyr yn cadw cofnod o'r holl blant, ymarferwyr ac ymwelwyr, gan sicrhau bod y prif ddrysau'n cael eu cadw ar glo, a gweithredu system gadarn ar gyfer rheoli mynediad i'r safle. Maent yn sicrhau bod profion diogelu'r amgylchedd yn cael eu cynnal yn gyson ac yn cadw

copïau o'r tystysgrifau diogelu. Maent yn dilyn gweithdrefnau priodol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr da.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau dysgu a chwarae o fewn cyrraedd hwylus i'r plant, sy'n rhoi cyfleoedd iddynt ddewis a dethol eu hunain. Mae'r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau yn briodol ac o safon uchel, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Yn ogystal, anogir datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda drwy gael mynediad effeithiol at deganau ac adnoddau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r person â gofal yn cefnogi tîm o ymarferwyr sy'n cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd. Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben clir, ac mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn wedi'i seilio ar ddatblygu medrau plant mewn hinsawdd Cymreig. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac fel tîm maent yn gweithredu'n effeithiol i ddarparu profiadau buddiol i'r plant a sicrhau eu lles. Mae'r lleoliad yn cael ei reoli'n effeithiol gan yr unigolion cyfrifol sy'n cefnogi'r arweinydd a'r person â gofal yn briodol.

Mae arweinwyr yn hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn briodol ac yn creu cynlluniau gwella manwl. Maent yn adnabod llawer o feysydd i'w gwella yn gywir; er enghraifft, maent yn adnabod yr angen i gryfhau prosesau asesu cynnydd plant. Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â rhai meysydd i'w gwella yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth tu allan, fel creu man deniadol i blant edrych ar lyfrau. O ganlyniad, mae'r plant yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd annibynnol.

Ar y cyfan, mae gan arweinwyr brosesau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff. Maent yn cynnal arfarniadau blynyddol addas, ac mae staff yn teimlo'n hyderus i drafod eu gofynion datblygiad proffesiynol gydag arweinwyr. Er enghraifft, o ganlyniad i fynychu cwrs datblygiad plant, mae ymarferwyr wedi gwella eu dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynnal goruchwyliaeth ffurfiol ag ymarferwyr gyda chofnodion penodol. Mae gan arweinwyr weithdrefnau recriwtio addas.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb y lleoliad yn briodol gan flaenoriaethu gwariant yn fwriadus. Er enghraifft, maent wedi defnyddio arian grant i wella'r adnoddau chwarae rôl, ac wedi buddsoddi mewn offer cadw'n heini i gynyddu cyfleoedd i ddatblygu medrau corfforol y plant

Mae gan arweinwyr bartneriaethau buddiol â rhieni. Maent yn cyfathrebu'n glir, ac yn rhannu gwybodaeth ynghylch sut i gefnogi dysgu'r plant, fel clipiau fideo ar-lein. Maent yn cydweithio â rhieni i godi arian ar gyfer y lleoliad, er enghraifft trwy trefnu raffl wyau Pasg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/07/2023